# ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG LLYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **Teitl y cynnig:** | Rheoliadau'r Cyfrifiad (Cymru) 2020 |
| **Adran:** | Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| **Gweinidog cyfrifol:** | Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd |
| **Dyddiad Dechrau:** | 01/01/2020 |
| **E-bost:** | desg.ystadegau@llyw.cymru |

**Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu hystyried a pham?**

Cynhelir y cyfrifiad bob 10 mlynedd ac mae'n cyfrif yr holl bobl ac aelwydydd yn y Deyrnas Unedig. Mae’n darparu gwybodaeth hanfodol o lefel genedlaethol i lefel cymdogaeth i’r llywodraeth, busnesau a’r gymuned. Dyma'r unig arolwg sy'n rhoi darlun manwl o'r boblogaeth gyfan ac mae'n unigryw am ei fod yn cwmpasu pawb ar yr un pryd ac yn gofyn yr un cwestiynau craidd ym mhob man.

Caiff holiadur y cyfrifiad ei gwblhau ar-lein neu ar bapur, gan ddarparu gwybodaeth am amrywiaeth o bynciau.

Mae Deddf y Cyfrifiad 1920 yn rheoli'r ffordd y caiff y cyfrifiad ei gynnal, gan ddarparu ar gyfer cynnal cyfrifiad er mwyn casglu gwybodaeth ystadegol am y boblogaeth. Mae angen is-ddeddfwriaeth ar ffurf Gorchymyn y Cyfrifiad a Rheoliadau’r Cyfrifiad cyn cynnal cyfrifiad. Roedd y Ddeddf Ystadegau a’r Gwasanaeth Cofrestru 2007[1] yn gosod cyfrifoldeb ar Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig a'i swyddfa weithredol, y Swyddfa Ystadegau Gwladol, i gynnal y cyfrifiad yng Nghymru a Lloegr.

Mae'r asesiad effaith integredig hwn yn gysylltiedig â'r Rheoliadau ar gyfer cynnal y cyfrifiad yng Nghymru ar 21 Mawrth 2021.

Defnyddir data'r cyfrifiad gan amrywiaeth o ddefnyddwyr mewn gwahanol ffyrdd. Er enghraifft:

- Mae'r llywodraeth yn defnyddio'r data i ddyrannu adnoddau i wasanaethau cyhoeddus pwysig fel awdurdodau lleol a byrddau iechyd.
- Mae gwasanaethau lleol, fel awdurdodau lleol a byrddau iechyd, yn defnyddio'r data i ddiwallu anghenion lleol o ran iechyd, addysg, trafnidiaeth a chynllunio.
- Mae'r llywodraeth yn defnyddio'r data ynghylch cyfansoddiad y boblogaeth ac aelwydydd i baratoi amcanestyniadau o'r boblogaeth ac aelwydydd, a gyhoeddir i gefnogi prosesau cynllunio ar lefel leol a chenedlaethol.
- Defnyddir data ardaloedd bach i nodi amddifadedd ac anghydraddoldebau ymhlith grwpiau o'r boblogaeth, sy'n galluogi'r llywodraeth i dargedu gwasanaethau i'r ardaloedd a'r bobl gywir.

Cynhaliwyd ymchwil helaeth ymhlith defnyddwyr o ystod eang o gefndiroedd i gefnogi a llywio'r gwaith o ddatblygu'r pynciau a'r holiaduron.

---

[1] http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2007/18/contents

**Casgliad**

**Sut mae'r bobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi cyfrannu at y gwaith o'i ddatblygu?**

Cynhaliwyd ymchwil helaeth ymhlith defnyddwyr o ystod eang o gefndiroedd i gefnogi a llywio'r gwaith o ddatblygu'r pynciau a'r holiaduron.

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi cynnal nifer o ymgynghoriadau cyhoeddus ffurfiol, a ategwyd gan sioeau teithiol a chyfarfodydd agored, fel rhan o'r broses o gynllunio Cyfrifiad 2021. Maent hefyd wedi gweithio gyda grwpiau cymunedol, elusennau a chyrff eraill yn y trydydd sector i sicrhau bod y cyfrifiad, yn ogystal â diwallu anghenion ystadegol defnyddwyr, yn cael ei gefnogi a'i gwblhau gan bob rhan o'r gymuned. Roedd hyn yn cynnwys ystod o weithgareddau yng Nghymru.
Ceir rhagor o wybodaeth yn y Papur Gwyn 'Helpu i Lunio Ein Dyfodol: Cyfrifiad o Boblogaeth a Thai yng Nghymru a Lloegr 2021'.

**Beth yw'r effeithiau mwyaf arwyddocaol, yn gadarnhaol ac yn negyddol?**

Arolwg a gynhelir bob deng mlynedd o holl bobl ac aelwydydd y Deyrnas Unedig yw'r cyfrifiad. Mae'n darparu gwybodaeth hanfodol o lefel genedlaethol i lefel cymdogaeth i'r llywodraeth, busnesau a'r gymuned.

Mae cymryd rhan yn y cyfrifiad yn orfodol (yn orfodadwy o dan y Rheoliadau hyn). Mae'n hanfodol bod pob ymdrech yn cael ei gwneud i gynnwys pawb yn y cyfrifiad gan mai hwn yw'r unig broses o gasglu data sy'n rhoi darlun manwl o'r boblogaeth gyfan ac mae'n unigryw am ei fod yn cwmpasu pawb ar yr un pryd ac yn gofyn yr un cwestiynau ym mhob man. Golyga hyn ei bod yn bosibl casglu data ar gyfer grwpiau bach o'r boblogaeth ac ardaloedd daearyddol bach.

Bydd sicrhau gwell polisi drwy ddefnyddio tystiolaeth well yn golygu bod adnoddau Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus yn cael eu targedu'n fwy effeithiol. Heb ddata Cyfrifiad diweddar, bydd cyrff cyhoeddus yn gwneud penderfyniadau cynllunio a buddsoddi ar sail gwybodaeth sydd wedi dyddio neu'n llai cadarn, a fydd yn cael effaith sylweddol ar effeithlonrwydd gwariant cyhoeddus. Mae'n cefnogi'r sylfaen dystiolaeth sydd gennym ar grwpiau bach o'r boblogaeth a nodweddion gwarchodedig, ac felly'n ennyn dealltwriaeth well o anghydraddoldebau ac yn sicrhau bod prosesau cynllunio'n cynnwys pob grŵp.

Bydd cwblhau'r cyfrifiad yn creu ychydig o faich i aelwydydd, o ran yr amser a gymerir i'w gwblhau.

Ceir gofynion llym ar Awdurdod Ystadegau DU, ac felly'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, i ddiogelu cyfrinachedd yr wybodaeth a gesglir. Bydd yr wybodaeth a gesglir yn y cyfrifiad ond yn cael ei defnyddio i gynhyrchu ystadegau ac ymchwil ystadegol. Ym mhob achos, rhaid cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn Neddf Ystadegau a'r Gwasanaeth Cofrestru 2007 ac yn y ddeddfwriaeth diogelu data (megis y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a Deddf Diogelu

Data 2018), a'r safonau a amlinellir yn y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau, wrth roi mynediad at ddata'r cyfrifiad a'u defnyddio.

Ceir rhagor o wybodaeth ynghylch diogelu data yn y Papur Gwyn Helpu i Lunio Ein Dyfodol: Cyfrifiad o Boblogaeth a Thai yng Nghymru a Lloegr 2021 a'r asesiad o'r effaith ar breifatrwydd a gyhoeddwyd yn 2015 yn y cam ymchwilio cynnar - The Census and Future Provision of Population Statistics and England and Wales: Privacy Impact Assessment for the Initial Research. Caiff Asesiad Effaith ar Ddiogelu Data cynhwysfawr ei gyhoeddi cyn bod Cyfrifiad 2021 yn digwydd. Bydd yn ystyried y cynllun technegol llawn a ddefnyddir yn ystod y cyfrifiad, a sut y bydd y data'n cael eu prosesu a'u diogelu.

**Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut bydd y cynigion yn:**

- **cyfrannu i'r eithaf at gyflawni ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu'n**
- **osgoi, lleihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Bydd y data a gesglir o'r cyfrifiad yn fodd i ddatblygu gwell polisïau ac amcanion llesiant lleol drwy ddarparu tystiolaeth well, ac yn golygu y gellir targedau adnoddau'n fwy effeithiol, bod mor gynhwysol â phosibl a chefnogi ein gwaith o fesur cynnydd tuag at gyflawni'r saith nod llesiant.

Byddwn yn sicrhau bod y baich amser sy'n gysylltiedig â chwblhau'r cyfrifiad mor fach â phosibl drwy ddarparu dogfennau ategol i helpu unigolion wrth iddynt lenwi'r holiaduron, a defnyddio cwestiynau sydd wedi'u profi ac yn hawdd eu deall. Bydd hefyd modd cwblhau'r arolwg ar-lein neu ar bapur.

**Sut bydd effaith y cynnig yn cael ei fonitro a'i werthuso wrth iddo fynd rhagddo a phan fydd wedi dod i ben?**

Bydd y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn llunio adroddiad ar ôl y cyfrifiad sy'n adolygu'r gweithrediad cyfan, a bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr ag allbynnau'r cyfrifiad. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol hefyd yn bwriadu cyflwyno cynigion ynglŷn â sut y bydd data tebyg i'r cyfrifiad yn cael eu casglu yn y dyfodol yn y blynyddoedd ar ôl Cyfrifiad 2021 a bydd yn gwneud argymhelliad i'r llywodraeth ar ddyfodol y cyfrifiad.